**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth, 9ed o Ionawr, 2018 am 7:30 y.h**

**Yn Bresennol**
Cynghorwyr –Sianelen Pleming (SP), Sara Williams (SW) John Owen (JO), Griffith Jones (GJ), Gwilym Williams (GW) William Jones (WJ) Emlyn Hughes (EH) a'r Cyng. Aled Jones (AJ)

1. **Hysbysiadau y Cadeirydd** - Croesawyd pawb a oedd yn bresennol.

2. **Ymddiheuriadau –** Lisbeth James, Olwen Roberts,.

3. **Datgan Diddordeb –** Neb

4. **Diweddariadau asedau –** Cafwyd adroddiadau ar gyflwr gwahanol asedau'r Cyngor. Cadarnhaodd WJ fod cyflwr mainc Pistyll yn dderbyniol.

5. **Cofnodion**

5.1 Cynigodd Gwilym Williams fod cofnodion y 12fed o Ragfyr, 2017 yn gywir. Eiliodd Sara Williams ac fe'u mabwysiadwyd.

5.2 Materion yn codi –

5.2.1 **Dŵr yr Eifl** – Nid yw'r gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau eto.

5.2.2 **Y Ffordd heibio Gors Lwyd** - Nododd y Clerc ei fod wedi bod mewn cysylltiad a'r Cyngor Sir. Dilynwyd y mater i fyny ac erbyn hyn maent wedi bod yn ymweld â'r safle. *Y Clerc i ddilyn y mater i fyny ar y 30 Ionawr pe na byddai cynnydd*.

5.2.3 **Mynwent Pistyll –** Nodwyd fod atgyweirio'r wal derfyn mewn llaw. Bydd angen adolygu'r yswiriant pan y bydd y gwaith wedi'i gwblhau.

5.2.4 **Maes Parcio wrth fynedfa Nant Gwrtheyrn -***Y Clerc i barhau i ymchwilio archif y Cyngor Cymuned o ran hyd a lled eu cyfrifoldeb am ran isa'r maes parcio.*

5.2.5 **Gor-yrru trwy Llithfaen -** Nododd y Clerc i PCSO Liz Jones gysylltu ag o yn fuan ar ôl cyfarfod Rhagfyr 2017 yn awgrymu fod y Cyngor yn cysylltu yn uniongyrchol â Go Safe i ofyn pryd y bydd canlyniadau'r arolygon a gomisiynwyd ar gael ac y bydd penderfyniad wedi'i wneud ynglyn a'r camau i ddilyn. Gan na dderbynwyd ymateb mae'r Clerc wedi dilyn y mater i fyny eisioes. Oherwydd yr oedi difrifol ers tynnu'r mater i sylw'r heddlu yn y man cyntaf cynigiodd SP i'r Cyngor ysgrifennu llythyr o gwyn i Gomisiynydd Heddlu Gogledd Cymru rhag blaen. Eiliodd SW a chytuodd pawb. *Y Clerc i weithredu*.

5.2.6 **Carreg Filltir Pistyll –** Nododd y Clerc ei fod mewn cyswllt a'r Cyngor ond nad oes ganddynt Swyddog henebion penodol. Awgrymwyd iddo siarad gyda John Dilwyn Williams ar ôl iddo ddychwelyd oddi ar ei wyliau. *Y Clerc i gysylltu.* Mae map

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyngor Cymuned Pistyll

hanesyddol manwl o Pistyll yn yr Archifdy ac awgrymwyd fod y Clerc ty mynd i'w weld i edrych os yw'n nodi'r garreg filltir. Penderfynwyd defnyddio'r map hwn i nodi holl gerrig milltir Pistyll. *Y Clerc i weithredu ac i ddiweddaru Bleddyn Prys Jones (AHNE) ynglyn ac unrhyw gynnydd.*

5.2.7 **Tir Comin** - *Y Clerc i barhau a'i ymchwil i ddyletswyddau'r Cyngor Cymuned yng nghyd destun y Tir Comin yn lleol.*

5.2.8 **Iechyd a Diogelwch -** Nododd y Clerc ei fod yn y broses o ddarparu cynllun gweithredu.

5.2.9 **Y ffordd rhwng Penisarhos a Chefntyddyn, Pistyll** - Adroddodd y Clerc ei fod wedi hysbysu'r Cyngor Sir fod coed ar ochr y ffordd uchod yn achosi i drafnidiaeth fynd oddi arni. Derbynwyd cadarnhad y Cyngor Sir fod datrysiad mewn llaw.

6. **Canolfan Llithfaen –** Adroddodd y Clerc nad yw'r Cyfreithiwr a benodwyd wedi ymateb i ymholiad y Cyngor eto. Gan hynny penderfynwyd gofyn i'r Clerc gysylltu ac Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir ynglyn a'r holl faterion a nodir yn eitem 6 yng nghofnodion cyfarfod y 14eg o Dachwedd. *Y Clerc i weithredu.*

7. **Sedd Wag –** Awdurdodwyd y Clerc i ymateb i holiadur sydd i law gan Banel Adolygiad Annibynnol a benwyd gan Lywodraeth Cymru i adolygu y Sector Cymuned a Thref. *Y Clerc i weithredu.* Adroddwyd fod sedd wag yn Ward Llithfaen. Cynigiodd GW fod y Cyngor yn cychwyn y broses o geisio cyfethol Aelod i'r sedd wag honno. Eiliodd SP a chytunodd pawb. *Y Clerc i weithredu.*

8. **Ceisiadau Cynllunio –** Cais Rhif: C17/1262/43/LL: Estyniad unllawr ochr ym Mhen y graig, Llithfaen, Pwllheli, Gwynedd, LL536NW. Cynigiodd JO nad oedd gan y Cyngor wrthwynebiad i'r cais. Eiliodd EH a chytunodd pawb. *Y Clerc i hysbysu'r gwasanaeth Cynllunio*.

9. **Materion Lleol eraill a godwyd o flaen llaw –**

9.1 **Pont Bryn Celyn** – Ar gais GJ bu'r Clerc mewn cysylltiad ac Adran Briffyrdd y Cyngor Sir i'w hysbyu mai tyfiant o wellt glas sy'n rhwystro dŵr rhag draeinio i'r afon. Nododd y Clerc iddo fod mewn cysylltiad a bod y Swyddog perthnasol am ymweld a'r safle. *Y Clerc i hysbysu'r Cyngor o'r cynnydd yn y cyfarfod nesaf.*

9.2 **Barbio Mynwent Pistyll –** Trafodwyd y broses ddyfynbrisio am y gwaith ar gyfer 2018. Cynigiodd SP i'r Cyngor fynd allan am dri dyfynbris i farbio'r safle ym mis Mehefin ac Awst. Eiliodd GW a chytunodd pawb. *GW i sicrhau 3 dyfynbris*.

9.3 **Cyswllt Band Llydan –** Nodwyd fod y cyswllt band llydan ym Mhistyll yn araf iawn. *Y Clerc i yrru llythyr o gwyn ar ran y Cyngor Cymuned i Btopenreach. AJ i hysbysu'r Clerc o'r manylion cyswllt.*

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyngor Cymuned Pistyll

10. **Gohebiaeth -**

10.1 **Cylchgrawn a manylion cyrsiau Un Llais Cymru am 2018 -** Cylchredwyd copi ar e-bost ac fe ddarparwyd copi ar gyfer y cyfarfod.

10.2 **Ceisiadau am grantiau –** Derbynwyd ceisiadau pellach am grantiau. Penderfynwyd eu hystyried yng nghyfarfod mis Mawrth yn unol a'r drefn arferol.

10.3 **Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Safonau –** Wedi'i gylchredeg. Nid oedd sylwadau.

10.4 **Arolwg Praeseb yr Heddlu -** Wedi'i gylchredeg. Nid oedd sylwadau.

10.5 **envisAGE – unigrwydd ymysg pobl hyn -** Wedi'i gylchredeg. Nid oedd sylwadau.

10.6 **Ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith ynglŷn â chyfraith cynllunio Cymru –** Wedi'i gylchredeg. Nid oedd sylwadau.

11. **Cyllid –**

11.1 **Gwiriad Gwariant 2017/18 -** Adolygwyd a chymeradwywyd y cysoniad banc, gyfriflen proffid a cholled a rhagamcanion 2017/18.

11.2 **Pennu Praeseb 2018/19 –** Adolygwyd rhagamcanion 2018/19. Wedi ystyried yr ymrwymiadau costau arfaethiedig cynigiodd EH i'r Cyngor bennu Praeseb o £8500.00 am 2018/19. Eiliodd WJ a chytunodd pawb. *Y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.*

11.3 **Trafodion y gyfriflen banc ddiweddaraf –**

£185.00 Eurwyn Griffith (Cyflog a threuliau Tachwedd)

Balans yn y Banc:

Cyfredol £5884.77

Cadw £2144.17

11.4 **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -**

| | | |
|---|---|---|
| E Griffith (Cyflog Clerc) | £160.00 | |
| √ (Costau/treuliau) | <u>£25.00</u> | £185.00 |
| Swyddfa Archwilio Cymru (Allanol 2016/17) | | £224.55 |
| JD Roberts (Archwiliad Mewnol 2016/17) | | £75.00 |

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 13eg o Chwefror, 2018am 7:30 y.h.**

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347